

ISSN 2053-5171
Rhifyn 1
Gwanwyn 2013

Herio Materion Crefyddol

Jeff Astley
ar Esblygiad
a'r Creu

Leslie J Francis
ar Ymchwilio i Brofiad
Crefyddol

Stephen Parker
ar Moeseg Rhyw
Gristnogol

William K Kay
ar Pentecostaliaeth
Newydd a Seciwlariaeth

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 1 Gwanwyn 2013

Cynnwys

Esblygiad a'r Creu Yr Athro Jeff Astley	2
Ymchwilio i Brofiad Crefyddol yn Tsieina: Prosiect Alister Hardy Yr Athro Leslie J. Francis	8
Moeseg Rhyw Gristnogol: Cyfunrywioldeb a Phriodas Dr Stephen Parker	15
Twf Pentecostaliaeth newydd ym Mhrydain: Beirniadaeth ar Seciwlariaeth Yr Athro William K. Kay	21

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)
Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wreccsam)
Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)
Phil Lord (Arweinydd System, GwE)
Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)
Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)
Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)
Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)
Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wreccsam)
Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)
Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Esblygiad a'r Creu

Jeff Astley

Mae'r erthygl yn disgrifio dwy elfen yn athrawiaeth y creu, gan ddadlau bod creu parhaus yn cyd-fynd ag unrhyw ddamcaniaeth wyddonol. Disgrifir honiadau am esblygiad ynghyd ag ymatebion diwinyddol deistiaeth, theistiaeth esblygiadol, cynllun deallus a chreadaeth. Nodir beirniadaethau ar y cynllun deallus.

Cyswllt manyleb: CBAC AC3 PHIL: Astudio Athroniaeth Crefydd (A2), 3. A yw ffydd Gristnogol yn cyd-fynd â thystiolaeth wyddonol?

Y Creu

Mae athrawiaeth y creu'n haeru bod Duw unwaith, amser maith yn ôl, wedi dod â phob mater, ynni a deddfau eu rhyngweithiad i fodolaeth. Ond mae athrawiaeth sy'n cyfyngu'r creu i ddigwyddiad yn y gorffennol ('creu-gwneud') yn ffurf radical ar ddeistiaeth: '*an understanding of God as an absentee landlord . . . [or] retired potentate*', a wnaeth y byd ond sydd ddim yn ei gynnal (McGrath, 2001, t. 184). Syniad mwy arwyddocaol yw'r un o 'greu-diogelu', sy'n awgrymu y byddai popeth yn troi'n ddim eto, heb Dduw: '*the world exists just so long as God wills it to, since its existence depends on his will as on its cause*' (Aquinas, 1967, cyfrol. 8, tt. 69-71).

Cyfeirir ambell dro at yr ail agwedd hon ar y creu fel 'creu parhaus (neu sy'n parhau)'. Yn wahanol i ddamcaniaeth

'cyflwr rheolaidd' Fred Hoyle, sydd erbyn hyn yn ddamcaniaeth farw, ond a oedd yn ddamcaniaeth gosmolegaidd *wyddonol*, nid yw'r safbwynt crefyddol a metaffisegol hwn yn awgrymu cyfres o weithredoedd newydd ar wahân o ddoed â phethau i fodolaeth. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at '*the incessant act by which [God] preserves the world in existence*' (Mascall, 1956, t. 132). (Os yw Duw'n bodoli 'y tu allan i amser' yna mae hon yn weithred *ddiamser* o safbwynt Duw.) Mae'n awgrymu bod pob realaeth, ar wahân i Dduw, yn ddibynnol ar Dduw, yn awr ac am byth, er mwyn gallu bodoli'n barhaus.

Ni ddylid meddwl am y bydysawd, felly, fel rhywbeth cyfatebol i gloc mecanyddol sy'n gallu dal i fynd heb ei wneuthurwr (fel mewn deistiaeth). Mae'n fwy fel cloc trydan sydd angen cyswllt parhaus gyda'i

Esblygiad a'r Creu

ffynhonnell ynni; neu faban yn cael ei gadw mewn bodolaeth yng nghroth ei fam, fel yn y ddelwedd o Dduw fel merch feichiog sy'n creu *'a world that is, in principle and in origin, other than him/herself, but creates it, the world, within him/herself'* (Peacocke, 1979, 2004, t. 142).

Os yw athrawiaeth y creu yn sôn am ddibyniaeth barhaus Natur ar Dduw, yn hytrach na dim ond ei darddiad eithaf (ac nad yw'n un arall, yn gystadleuaeth eglurhad gwyddonol yno hyd yn oed) fe all ymgymhwyso bron unrhyw wyddoniaeth. Pan fydd gwyddoniaeth yn cynnig disgrifiad o ddatblygiad y bydysawd ffisegol neu fywyd biolegol, fe all yr un sy'n credu gytuno bob amser ond ychwanegu 'ac mae Duw'n cynnal hyn oll'.

Honiadau esblygiadol

Mae'r persbectif esblygiadol yn allweddol i bob agwedd ar wyddorau bywyd heddiw. Honnodd Theodosius Dobzhansky nad oes dim mewn bioleg yn gwneud synnwyr, ond yng ngoleuni esblygiad - *nothing in biology makes sense 'except in the light of evolution'*. Mae biolegwyr yn cefnogi'n helaeth gynnig Charles Darwin ac Alfred R. Wallace mai'r dethol naturiol o amrywiadau ar siawns yw'r brif broses sy'n egluro ymaddasiadau pethau byw i'w hamgylchedd.

Mae'r dystiolaeth am esblygiad yn cynnwys dilyniant olion wedi'u ffosileiddio, yn cynnwys 'dolennau coll', wedi eu darganfod o fewn haenau daearegol; ynghyd ag astudiaethau cymharol o debygrwydd pethau byw y presennol i'w gilydd yn eu datblygiad cynnar, eu hanatomi a'u biocemeg (DNA), a phatrwm eu dosbarthiad daearyddol. Y ffordd orau i egluro'r dystiolaeth hon yw trwy'r syniad o'u disgrifiad gyda

newidiadau *'descent with modification'* o hynafiaid cyffredin mewn un goeden fywyd fawr *'tree of life'* (termau Darwin), yn hytrach nag yn ôl y disgrifiad yn Genesis 1 o greu arbennig hollol ar wahân y gwahanol 'fathau' o greaduriaid, ac yn enwedig bodau dynol. Mae oes helaeth y ddaear a bywyd yn gwneud newidiadau esblygol enfawr ond graddol yn bosibl.

Ymatebion diwinyddol

Theistiaeth esblygiadol (esblygiad theistig)

Dyma safbwynt y rhan fwyaf o Gristnogion a diwinyddion academiaidd prif lif sef mai esblygiad yw'r ffordd y mae Duw'n gwneud mathau newydd o bethau byw 'trwy esblygiad', wedi llunio prosesau Natur – yn cynnwys mwntaniad a dethol naturiol – fel bod Duw'n 'gwneud pethau i wneud eu hunain'.

Fe all y disgrifiad fod ar wahanol ffurf. Mae *theistiaeth* yn mynd y tu hwnt i safbwynt eithafol *deistig* bod rôl Duw yn gyfyngedig i gychwyn creadigaeth sydd ym mhen hir a hwyr yn arwain at esblygu pethau byw, trwy hawlio bod Duw yn dechrau ac yn parhau i gynnal y broses esblygiadol.

Mae llawer o theistiaid yn deall Natur fel bod â strwythur agored sy'n caniatáu i'r creawdwr ddylanwadu, mewn ffordd sy'n annatgeladwy i wyddoniaeth, y digwyddiadau sydd i raddau helaeth yn anrhagweladwy neu hyd yn oed yn hollol anhenderfynadwy, sy'n arwain at fwtaniad genetig (efallai ar y lefel is atomig) a/neu'r gwasgeddau dethol a roir ar waith gan yr amgylchedd. Yn achos y safbwynt hwn, nid yw Duw'n ymyrryd yn y creu trwy atal ei ddeddfau ei hun, ond yn llywio'n rhagluniaethol gwrs esblygiad mewn un ffordd yn hytrach na'r llall - ond bob amser o fewn amrediad canlyniadau naturiol sy'n bosibl o fewn Natur (fel

Esblygiad a'r Creu

rhwyfwr yn rhwyfo'i chwch yn agos at un lan i'r afon yn hytrach na'r lan arall, ond yn parhau i fod rhwng dwy lan yr afon). Felly, mae Robert Russell yn dadlau bod addasiadau'n cael eu hegluro'n rhannol trwy weithgaredd di-ymyrraeth Duw yn dylanwadu ar fwtaniad genetig a lefel amhenodrwydd cwantwm.

Mae eraill, er hynny, yn haeru (yn ychwanegol at weithredoedd creadigol cychwynnol a chynhaliol Duw, a gweithgaredd rhagluniaethol Duw) y gall Duw ymyrryd hefyd mewn esblygiad, gan wneud *gwyrrthiau* sydd y tu allan i derfynau deddfau Natur (fel rhwyfwr yn llusgo'i chwch allan o'r afon ac ar draws tir sych). Er enghraifft, fe allai Duw fod wedi cyflwyno elfennau hollol newydd o fewn esblygiad bodau dynol.

Mae Arthur Peacocke, er hynny, yn gwrthod *unrhyw* fath o '*special guidance . . . whereby God pushes or pulls evolution in a direction it would not otherwise have taken by its own natural processes and propensities*' (Peacocke, 2001, t. 75).

Creddaeth

Mae Creadyddion yn gwrthod, naill ai'n gyfan gwbl neu i raddau helaeth, yr honiad bod pob peth byw wedi esblygu o ffurfiau cynharach o fywyd. Maen nhw'n meddwl mwy ynghylch y creu yn nhermau tarddiad, ac yn cadw at y disgrifiad Beiblaidd o greu arbennig (o leiaf yn achos y gwahanol 'fathau' o greaduriaid ac o fodau dynol, fel yn Genesis 1:11-12, 20-27).

Mae 'gwyddoniaeth y creu' yn hawlio bod seiliau gwyddonol ar gyfer herio esblygiad, ond mae'r gwyddonwyr eu hunain yn gwrthod y llenyddiaeth hon fel dadleuaeth ac ideoleg yn hytrach na dadlwyddonol. Mae creddaeth yn fwy cyffredin ymysg y rhai hynny sy'n ystyried eu Hysgrythurau fel rhai hollol anffaeledig (yn gwbl wir).

Mae'r Creadyddion mwyaf eithafol yn gwrthod pob esblygiad fel peth heb ei brofi, ac weithiau fel hypothesis wedi ei wrthbrofi. Mae rhai eraill sydd ddim ond yn gwrthod yr honiadau a wneir am y 'macroesblygiad' o bob bywyd o hynafiaid cyffredin ac yn enwedig rhwng 'mathau' Beiblaidd o bethau byw (er enghraifft, ymlusgiaid yn esblygu'n adar), tra maen nhw'n caniatáu bod 'microesblygiad' ar raddfa fechan yn gallu digwydd (er enghraifft esblygiad bacteria sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfotigau, am fod mathau ymatebol yn cael eu lladd cyn iddyn nhw allu amlhau, tra mae rhywogaethau gwydn yn bridio'n ddirwyr).

Mae Creadyddion Daear-ifanc ('*Young-earth creationists*) yn dal mai dim ond 6,000 i 10,000 o flynyddoedd oed yw'r ddaear (yn hytrach na 4.5 biliwn o flynyddoedd). Yn ôl y safbwynt hwn caiff ffosilau rhywogaethau diflanedig eu hegluro'n bennaf fel dioddefwyr y dilyw Beiblaidd byd-eang, y maen nhw'n ei ddyddio tua 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Ond mae Creadyddion Hen-ddaear ('*Old-earth creationists*), mewn gwrthgyferbyniad, yn cydnabod darganfyddiadau daeareg fodern ond yn dal disgrifiad diwygiedig o stori creu arbennig Genesis. Mae rhai yn cynnig 'bwlch' hir (cyfnod heb ei gofnodi) o fewn dilyniant y creu Beiblaidd; mae eraill yn mabwysiadu'r 'system diwrnod-oes' o ddehongli dyddiau'r creu fel oesau daearegol (neu seryddol).

Cynllyn deallus

Er eu bod yn aml yn cael eu disgrifio fel 'creadyddion' neu 'neogreadyddion', mae esbonyddion y safle mwy cymedrol hwn yn aml yn derbyn bod esblygiad (weithiau hyd yn oed esblygiad dynol) yn digwydd, rhannau o hynny trwy gyfrwng dethol naturiol. Maen nhw'n mynnu, fodd bynnag, bod angen ymyrraeth mewn

Esblygiad a'r Creu

cynllun ymwybodol (*conscious design*) am na all prosesau naturiol egluro'n gyfan gwbl holl gyfaddasiadau pethau byw.

Mae Michael Behe yn dadlau bod sawl ffenomen organig yn dangos *cymhlethdod anostyngadwy*. Gan fod y mecanweithiau biocemegol neu'r 'peiriannau molecwlar' hyn wedi eu gwneud o gydrannau rhyngweithiol y mae pob un yn angenrheidiol er mwyn i'r cyfan weithio, mae eu cymhlethdod yn amhosibl ei egluro gan ei fod wedi ei adeiladu'n raddol dros y cenedlaethau trwy gyfres o gyfaddasiadau bach olynol. Y ddadl yw na all y strwythur neu'r broses ond gweithio (ac felly'n cael ei dewis ar gyfer) pan fydd yr *holl* rannau yn eu lle: fel arall fe fyddai fel trap llygoden sydd heb forthwyl neu sbring. Mae enghreifftiau Behe o systemau o'r fath yn cynnwys y fflangell o facteria ar ffurf chwip, a'r 'rhaeadr' ceulo gwaed.

Mae beirniaid yn ymateb trwy ddweud '*no Darwinian would deny that in organisms there are parts which, if removed, would lead at once to the malfunctioning . . . of the systems in which they occur. The point is . . . whether [the parts] could have been put in place by natural selection*' (Ruse, 2003, p. 320). Ymhellach, fe all y fflangell facteriaidd, mewn rhai achosion, golli rhannau a pharhau i weithio, ac mae'r rhaeadr ceulo gwaed mewn dolffiniaid yn dal i weithio er ei fod yn ddiffygiol o un o'r cydrannau safonol. Mae mecanweithiau cymhleth mewn pethau byw fel arfer yn esblygu trwy ddiwygio mecanweithiau

symlach sydd naill ai'n gweithio'n llai effeithlon, neu eisoes yn perfformio swyddogaeth ddefnyddiol wahanol.

Mae William Dembski yn cymhwyso i fioleg faen prawf tebygolrwydd a gaiff ei ddefnyddio gan wyddonwyr fforensig ac archeolegwyr i wahaniaethu gwrthrychau a digwyddiadau sydd wedi eu hachosi'n ddeallus. Yn ôl Dembski, fe fyddai'r tebygolrwydd o gydodod system gymhleth anostyngadwy yn swyddogaeth tebygolrwydd pob un o'i chydannau, nid yn unig yn codi ar siawns, ond hefyd wedi eu lleoli yn yr un rhan o'r gell ar siawns ac yn cael ei hadeiladu yn y drefn iawn ar siawns. Ar y rhagdybiaethau hyn, mae esblygiad hyd yn oed strwythurau celloedd syml hyd yn oed yn rhy annhebygol. Ond mae damcaniaeth esblygiad hefyd yn ymwneud â'r elfen *gwrth-siawns* o ddethol naturiol, ac yn honni proses *gronnis* yn yr hon y mae canlyniad un proses ddewis yn ffurfio seiliau y nesaf, yn hytrach na dewisiad un cam lle mae pob "cais" newydd yn un ffres - '*single-step selection (in which each new "try" is a fresh one)*' (Dawkins, 1988, 1991, t. 49). Caiff y cynllun deallus (ID) ei wrthod gan bron bob biolegydd. Mae'n mynnu bod rhaid i bob bwch mewn bioleg esblygol gael ei egluro gan achos goruwchnaturiol, neu o leiaf achos annaturiol. Ond rhaid i wyddoniaeth bob amser barhau i chwilio am esboniadau naturiol; a '*God does not compel the belief of sceptics by leaving puzzles in creation which science can't solve*' (George Murphy, a ddyfynnwyd yn Dembski and Ruse, 2004, t. 186).

Esblygiad a'r Creu

Geirfa

Asid yw *DNA* (*deoxyribose nucleic acid*). Mae dilyniannau penodol o 'barau sylfaen' o DNA yn cynhyrchu effaith etifeddol neilltuol, yn unol â rheolau'r *cod genynnol*: y cydgysylltiad rhwng tripledidi o sylfaen mewn DNA ac asidau amino neilltuol sy'n ffurfio proteinau. Mae'r dilyniant hwn yn cynnwys *genyn*, a dyna yw'r uned o etifeddiaeth.

Mae *esblygiad* yn dynodi newidiadau mewn poblogaethau pethau byw trwy'r cenedlaethau.

Mwtaniad yw newid (amrywiad) etifeddol mewn deunydd genetig, yn aml o ganlyniad i wallau (ar hap) wedi eu cyflwyno wrth i DNA gopïo'i hun.

Detholiad naturiol yw canlyniad anochel gor-fridio lle mae adnoddau'n brin. Mae cystadleuaeth am fwyd,

tiriogaeth, ac ati'n arwain at frwydro i fodoli lle mae'r rhai hynny sy'n gallu addasu orau i'r amodau, ar gyfartaledd, yn debygol o oroesi'n hirach a chynhyrchu mwy o hiliogaeth. Dim ond pan fydd poblogaeth yn cynnwys amrywiadau etifeddol y mae detholiad naturiol yn digwydd.

Amhenodrwydd cwantwm yw'r safbwynt pan fydd digwyddiadau ar y lefel is-atomig ddim yn gyfan gwbl wedi'u pennu gan ddigwyddiadau naturiol blaenorol.

Mecanwaith eilradd o esblygiad yw *detholiad rhywiol*, lle mae unigolion yn cael eu dewis trwy fynediad at (ac yn aml o ddewis gan) aelodau o'r rhyw arall. Mae'n egluro ffenomen fel cynffon lachar ond beichus y paen.

Cysylltau

<http://campaigndirector.moodia.com/Client/Theos/Files/RescuingDarwin.pdf> (Spencer, N., & Alexander, D., *Rescuing Darwin*, 2009)

<http://www.arn.org/authors/behe.html> (Michael Behe)

<http://www.arn.org/authors/behe.html> (William Dembski)

<http://www.icr.org> ('Institute for Creation Research' – promoting scientific young earth creationism)

<http://www.talkorigins.org> ('The Talk Origins Archive' – scientific responses to creationism/ID)

<http://www.counterbalance.net/evolution/index-frame.html> ('Counterbalance Foundation' – some more basic accounts of the debate)

<http://www.pbs.org/wgbh/evolution/darwin> (gwefan 'Public Broadcasting Service' website)

Esblygiad a'r Creu

Pwyntiau trafod

1. 'Strictly speaking, evolution has nothing to do with "creation" itself... They are talking about different sides of the same reality' (Moltmann, 1985, p. 196). I ba raddau mae'r dyfyniad yn wir?
2. Allwn ni gyfiawnhau i Dduw adael esblygiad i fwtaniadau siawns a dethol naturiol?
3. Ai gwyddoniaeth neu ddiwinyddiaeth yw cynllun deallus (*intelligent design*)?

Cyfeiriadau

- Aquinas, T. (1967). *Summa Theologiae*. Eds T. Gilby & T.C. O'Brian. London: Eyre and Spottiswoode (60 vols).
- Dawkins, R. (1988, 1991). *The blind watchmaker*. London: Penguin.
- Dembski, W.A., & Ruse, M. (Eds) (2004). *Debating design: From Darwin to DNA*. Cambridge: Cambridge University Press.
- McGrath, A.E. (2001). *A scientific theology: Nature (vol.1)*. Edinburgh: T. & T. Clark.
- Mascall, E.L. (1956). *Christian theology and natural science: Some questions on their relations*. London: Longmans, Green.
- Moltmann, J. (1985). *God in creation: An ecological doctrine of creation*. London: SCM Press.
- Peacocke, A.R. (1979, 2004). *Creation and the world of science*. Oxford: Clarendon Press.
- Peacocke, A.R. (2001). *Paths from science towards God: The end of all our exploring*. Oxford: Oneworld.
- Ruse, M. (2003). *Darwin and design: Does evolution have a purpose?* Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press.

Y Parchedig Athro Jeff Astley oedd Cyfarwyddwr sefydlol y North of England Institute for Christian Education, a fu'n cynnal diwrnod astudio blynyddol i dros 750 o fyfyrwyr lefel A am lawer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae'n Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgolion Durham, Glyndŵr a York St John. Mae'n awdur neu'n olygydd nifer fawr o lyfrau, yn cynnwys Jeff Astley, David Brown and Ann Loades (eds), Creation: A Reader, London: T & T Clark, 2003; Science and Religion: A Reader, London: T & T Clark International, 2004.

Ymchwilio i Brofiad Crefyddol yn Tsieina: Prosiect Alister Hardy Leslie J. Francis

Mae'r erthygl hon yn disgrifio gweledigaeth Sir Alister Hardy wrth iddo sefydlu'r Uned Ymchwil i Brofiad Crefyddol (yn ddiweddarach Canolfan Ymchwil Alister Hardy i Brofiad Crefyddol), a'r materion ynghylch ymestyn yr ymchwil i Tsieina a'r honiadau a wnaed er mwyn hynny.

Cyswllt manyleb: CBAC AC1/2 PHIL: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd (AS), 4. Cyflwyniad i brofiad crefyddol: Cyfriniaeth.

Sir Alister Hardy

Rhoddodd Sir Alister Hardy gychwyn ar draddodiad pwysig iawn mewn perthynas ag ymchwiliad gwyddonol i brofiad crefyddol, i ddechrau trwy ei ysgrifau ei hun ac ar ôl hynny trwy'r gymynrodd o'r Uned Ymchwil i Brofiad Crefyddol a sefydlodd yn Rhydychen yn 1969. Cafodd yr Uned ei hailenwi wedyn yn Ganolfan Ymchwil Alister Hardy i Brofiad Crefyddol. Efallai bod gwaith Hardy ei hun yn y maes yn fwyaf adnabyddus trwy ei lyfrau: *The Divine Flame* (1966), *The Biology of God* (1975) a *The Spiritual Nature of Man* (1979). Enynnodd gwaith cynnar y Ganolfan Ymchwil i Brofiad Crefyddol dipyn o sylw trwy waith arloesol Edward Robinson mewn astudiaethau fel: *The Original Vision* (1977), *This Time-Bound Ladder* (1977) a *Living the Questions* (1978). Hyfforddodd Alister Hardy fel

sŵolegydd a gwasanaethodd fel Athro Sŵoleg ym Mhrifysgol Rhydychen. Roedd wedi ymroddi ei yrfa academaidd i archwiliad gofalus i ymddygiad anifeiliaid morol. Roedd yn deall i'r dim y rhinwedd gwyddonol oedd ynghlwm â chasglu a threfnu samplau ym myd y gwyddorau naturiol. Ei ysbrydoliaeth oedd trosglwyddo'r fethodoleg hon i gylch y gwyddorau ysbrydol ym maes profiad crefyddol. Roedd tarddiad archif profiadau crefyddol Alister Hardy mewn gwahoddiad a gyhoeddwyd yn y wasg Brydeinig. Gofyniad syml i'r hyn sydd bellach yn gwestiwn clasurol Hardy oedd:

A ydych chi erioed wedi bod yn ymwybodol o neu wedi'ch dylanwadu gan bresenoldeb neu rym, pa un ai eich bod yn ei alw'n Dduw ai peidio, sydd yn wahanol i'r hyn ydych chi

Profiad Crefyddol yn Tsieina

eich hun o ddydd i ddydd?

Have you ever been aware of or influenced by a presence or power, whether you call it God or not, which is different from your everyday self?

Derbyniwyd lluo o adroddiadau am brofiadau crefyddol gan yr Uned, mewn ymateb i wahoddiad gwreiddiol Hardy, ac maen nhw wedi parhau i ddigwydd ers hynny. Cafodd yr archif ei chadw'n ddiogel a'i rheoli (i ddechrau yng Ngholeg Manchester, Rhydychen, wedyn yng Ngholeg Westminster, Rhydychen, ac yna ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan). Mae yma adnodd cyfoethog sydd wedi caniatáu ac sy'n parhau i ganiatáu archwiliadau o themâu canolbwyntiedig, fel y rhai a welir yn astudiaethau Mark Fox: *Religion, Spirituality and the Near-Death Experience* (2003), and *Spiritual Encounters with Unusual Light Phenomena: Lightforms* (2008).

Un o gryfderau cynnar archif Alister Hardy yw bod prif gasgliad o samplau wedi eu dwyn ynghyd o gyd-destun diffiniedig a homogenaidd, sef Prydain. Ar yr un pryd mae gwendid arwyddocaol yn yr ystyr bod yr union gryfder yma hefyd yn cyfyngu ar y gallu i gyffredinolï'r darganfyddiadau. Am y rheswm hwnnw y bu Canolfan Ymchwil Alister Hardy i Brofiad Crefyddol yn mynnu ymestyn yn ehangach weledigaeth Sir Alister Hardy.

Tanlinellwyd y pwysigrwydd a'r goblygiadau o ymestyn yr ymchwil i brofiad crefyddol yn y ffordd hon yn 1990 gan Robert Runcie, pan oedd yn Archesgob Caergaint, wrth iddo lansio apêl ar gyfer y Ganolfan Ymchwil. Fe ddywedodd:

Os oes modd dangos bod yna 'graidd cyffredin' neu 'eithaf tebygrwydd' i bob un profiad crefyddol, ar wahân i

gredo, hil neu gymdeithas, fe allai fod goblygiadau dwys ar gyfer esblygiad o'r deall cyffredin sy'n bodoli ar draws y lluo o ragfuriau sy'n cadw pobl ar wahân i'w gilydd yn y byd.

If it can be shown that there is a 'common core' or 'ultimate sameness' to all religious experience, irrespective of creed, race or society, this could have profound implications for the evolution of common understanding across many of the current barriers which divide people in the world.

Gall yr ymchwil hwn am 'graidd cyffredin' neu'r 'eithaf tebygrwydd' sy'n rhan o brofiad crefyddol ymddangos yn lledrithiol a hefyd yn annefnyddiol, ond mae'n ein gosod ar lwybr meddwl yn y cyfeiriad cywir. Ymchwil mwy realistig wyddonol (ac un gaiff ei hardystio gan Ganolfan Ymchwil Alister Hardy i Brofiad Crefyddol) yw honno sy'n archwilio a siartio'r *amrywiaeth o brofiadau crefyddol ac ysbrydol*.

Pam Tsieina?

Mae astudiaeth o brofiad crefyddol yn y Tsieina gyfoes yn darparu amgylchfyd nerthol er mwyn profi'r hollbresenoldeb sydd ynghlwm wrth brofiad crefyddol ac i brofi am gydrannau craidd cyffredinol o'r cyfryw brofiad. Yn hanesyddol cafodd ddiwylliant crefyddol Tsieina ei rannu gan dri phrif draddodiad: Confucianiaeth, Daoiaeth a Bwdhaeth sydd bellach wedi cydblethu, o leiaf ers cyfnod brenhinlin Tang (618-906 OC), ac sydd i'w cael yn awr ochr yn ochr â chrefydd werinol draddodiadol. Ar adegau hefyd cafodd Tsieina ei dylanwadu gan Gristnogaeth ac Islam. Nid yn unig y mae'r ymagwedd hanesyddol tuag at grefydd wedi bod yn wahanol iawn yn Tsieina, ond ers 1949 mae Tsieina yn swyddogol wedi bod yn

Profiad Crefyddol yn Tsieina

wlad anffyddiog. Os gellir cael hyd i brofiad crefyddol mewn unrhyw le, yn sicr gwlad anffyddiog yw'r amgylchfyd lleiaf tebygol.

Mae tri rheswm, felly, am roi sylw teilwng i'r ymchwil a wnaed gan Ganolfan Ymchwil Alister Hardy i Brofiad Crefyddol (sydd wedi ei chefnogi â chyllid sylweddol gan y Templeton Foundation) ac a adroddwyd arni gan Xinzhong Yao a Paul Badham (2007) yn eu llyfr, *Religious Experience in Contemporary China*. Y rheswm cyntaf yw archwilio sut yr aethon nhw ati gyda'u hymchwil, a'r math ar drafferthion y gwnaethon nhw'u hwynebu wrth astudio profiad crefyddol yng nghyd-destun, nad yw o reidrwydd, yn gyfarwydd wrth drafod crefydd. Yr ail reswm yw archwilio'r math ar dystiolaeth a ymddangosodd o ganlyniad i'w hymchwil. Y trydydd rheswm yw archwilio a yw'r astudiaeth neilltuol hon yn cynnig unrhyw fewnwelediadau cyffredinol pellach i natur ac ystyr profiad crefyddol.

Ymchwilio i brofiad crefyddol yn Tsieina

Y mater allweddol cyntaf a wynebodd y grŵp ymchwil oedd hwnnw'n ymwneud â'r broblem ieithyddol. Pan gyfieithir ef i'r Tsieinëeg, nid yw'r term 'profiad crefyddol' yn golygu rhyw lawer i neb oddi allan i gylchoedd Cristnogol ac academiaidd. Sut bynnag, nid yw methu ag adnabod yr iaith yn golygu nad oes ystod o brofiadau sydd ynghlwm wrth yr iaith honno yn bresennol. Yn wir mae profiadau y byddwn ni efallai'n eu dehongli neu'n eu dosbarthu fel rhai sydd o natur grefyddol wedi bod yn rhan amlwg o ddiwylliant hanesyddol Tsieinëeg, lle mae ysgolheigion ac ysgrifenyddwyr wedi cyfeirio at bwysigrwydd ac effaith 'gweld', 'teimlo', 'gwybod', 'clywed' neu 'freuddwydio' am rym oedd yn eu trosgynnu nhw'u hunain.

O ganlyniad, roedd angen llunio cwestiynau yn y fath fodd fel y gall pobl Tsieinëeg eu hadnabod, eto aros yn gyson â safbwynt Hardy sydd o'r farn bod profiad crefyddol yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth o rym neu bresenoldeb sy'n wahanol i'r hyn a brofir o ddydd i ddydd - '*a power or presence different from everyday self.*' Am y rheswm hwn felly fe ganolbwyntiwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o'r prosiect Tsieinëeg pedair blynedd ar ffurfiant brodorol i'r holiadur a threialu ymatebion i'r gwahanol ffyrdd y gellid gofyn y cwestiynau. Roedd cymhlethdod yr hyn yr oedden nhw'n ymgymryd ag ef yn cael ei amlygu â'r ffaith bod yr offeryn arolwg wedi ei olygu naw o weithiau cyn y cytunwyd ar y fersiwn terfynol.

Yr ail wers a ddysgwyd o'r amser a dreuliodd yn datblygu a phrofi'n ofalus ddull yr ymchwil oedd honno'n ymwneud â phwysigrwydd o weithredu'r ymchwil trwy gyfweiliadau dwys hir dan arweiniad cynorthwywyr ymchwil hyfforddedig. Cyn gynted ag yr oedd y cwestiynau a'r fethodoleg wedi cael eu mireinio, cafodd y cyfweiliadau eu gweithredu mewn deg o safleoedd yn rhannau'r Dwyrain, Canolbarth a Gorllewin Tsieina. Gweinyddwyd y 3,196 o gyfweiliadau gan ddim llai na 110 o gynorthwywyr gafodd eu recriwtio ym Mhrifysgol Renmin yn Tsieina, trwy gwblhau holiadur manwl o 24 tudalen mewn Tsieinëeg.

Darganfod profiad crefyddol yn Tsieina

Ymddangosodd dau ddarganfyddiad pennawd o'r cyfweiliadau. Y darganfyddiad pennawd cyntaf yw hwn: os yw cyswllt crefyddol hunan-neilltuol yn cael ei gymryd fel arwydd o grefyddoldeb, mae'r Tsieineaid yn ymddangos fel pobl anghrefyddol. Mae'r ail ddarganfyddiad pennawd rywfaint yn wahanol: os ydym

Profiad Crefyddol yn Tsieina

yn gwranddo ar eu profiad crefyddol ac ar eu harferiadau crefyddol, mae'r Tsieineaid yn ymddangos ymhell o fod yn bobl anghrefyddol. Er enghraifft, tra mai dim ond 4% o'r Tsieineaid Han fyddai'n disgrifio'u hunain fel Bwdhyddion, roedd 27% ohonyn nhw wedi gweddïo ar y Bwdha neu ar un o'r Bodhisattvas yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd 18% yn cydnabod dylanwad neu reolaeth y Bwdha neu un o'r Bodhisattvas ar eu bywydau. Tra roedd dim ond 5% wedi dweud eu bod yn credu mewn ailymgnawdoliad, wrth drafod eu profiad personol, fe fynegodd 51% o'r Tsieineaid Han bod eu priod, eu perthnasau a'u ffrindiau i gyd yn ganlyniad yr hyn yr oedden nhw wedi ei wneud mewn bywyd blaenorol.

Dim ond 9% o'r Tsieineaid Han sy'n disgrifio'u hunain yn grefyddol. Fodd bynnag, wrth drafod eu profiad personol:

- fe ddywed 29% ohonyn nhw eu bod yn teimlo wedi eu cysuro neu eu grymuso trwy weddi ac addoliad;
- cred 46% eu bod wedi dod dan ddylanwad neu wedi cael eu rheoli gan Dduw Ffortiwn;
- fe gytuna 44% fod bywyd a marwolaeth yn dibynnu ar Ewyllys y Nefoedd;
- fe gytuna 41% y dylem wneud ein gorau glas i fawrygu Duw/Arglwydd y Nefoedd/Bwdha/ein hynafiaid.

Y fersiwn Tsieineaid, fodd bynnag, o gwestiwn clasurol Alister Hardy a gynhyrchodd y darganfyddiadau mwyaf dadlennol. Yn yr arolwg Tsieineaid, roedd y cwestiwn fel a ganlyn:

Mae rhai pobl wedi cael y profiad eu bod unwaith a/neu eu bod yn aml yn cael eu dylanwadu gan y math ar rym na all pobl gyffredin ei reoli na'i

egluro'n rhwydd. A gawsoch chi erioed brofiad o'r fath?

Some people have experienced that they were once and/or are frequently influenced by a kind of power that ordinary people cannot control or explain clearly. Have you ever had such an experience?

Fel mater o ffaith, fe gafodd profiad o'r fath gofnodi gan 57% o'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth.

Dadleua Yao a Badham (2007, tt. 32-33) yng nghyd-destun Tsieineaid Han, bod profiad crefyddol fel arfer yn cael ei adlewyrchu mewn chwe phrif gategori, y rhai sy'n cael eu nodweddu fel a ganlyn ganddynt:

- cael profiad o ddylanwad neu reolaeth gan rym neu fod ysbrydol;
- cael profiad o ddeall o'r newydd sydd wedi achosi newid i batrwm bywyd;
- cael breuddwyd sy'n anghyffredin ond y credir iddi fod yn wir;
- cael teimlad dirgel fel clywed, gweld, arogli neu gael eu cyffwrdd;
- cael profiad gweledigaethol naill ai yn unigol neu ar y cyd ag eraill;
- cael profiad o fod yn un â'r bydysawd, lle mae wedi anghofio am fodolaeth yr hunan ac wedi dod yn un corff â'r bydysawd.

Nid oedd y cyfan o'r profiadau a gofnodwyd yn ffitio'r chwe phrif gategori hyn, fodd bynnag, gan arwain Yao a Badham (2007, t. 33) i ddiffinio seithfed categori fel a ganlyn:

- arall, fel categori eang ar gyfer y cyfan nad yw'n bosib neu na ellir eu cynnwys yn y chwech arall.

Natur ac ystyr profiad crefyddol

Mae astudiaeth Yao a Badham, *Religious Experience in Contemporary China* yn rhan o fenter wyddonol arwyddocaol, wedi ei hysbrydoli gan Sir Alistair Hardy, i gasglu, dadansoddi, a dehongli adroddiadau am brofiadau crefyddol ac ysbrydol ar draws y byd. Cafodd llawer o'r gwaith ymchwil hwn ei wneud yn unol â thraddodiad y sŵolegydd, sydd â'i achos yn mapio'r *amrywiaethau* a'r nodweddion sydd ynghlwm wrth y samplau dan sylw ganddo. Mae'r cyfryw waith ymchwil yn darparu'r plattform hanfodol ar yr hwn y gellir seilio ymholiad gwyddonol ac ar yr hwn y gellir adeiladu gwybodaeth.

Ar yr un adeg, fodd bynnag, rhaid cymryd gofal ynghylch y math o honiadau y mae'n bosib eu ffurfio ar sail y mathau hyn o ddata. A yw *adroddiadau* am brofiad crefyddol o ddifrif yn caniatáu i unrhyw beth gael ei fynegi am yr *honiadau gwir* sy'n cael eu gwneud gan draddodiadau crefyddol, neu hyd yn oed am y pwrpasau sydd gan y cyfryw brofiadau i'w chwarae mewn bywyd dynol? Wrth fyfyrion ar y materion ehangach hyn ar bapur, sydd nid yn unig yn dwyn i mewn y prosiect ar Tsieina, ond hefyd ar brosiectau tebyg a gynhaliwyd yn Nhwrcei, Tamilnadu a Taiwan, mae'r Athro Paul Badham (2011) yn gwneud dau honiad diddorol.

Honiad cyntaf Badham yw:

Yr hyn y mae'r amrywiol ffigurau hyn yn ei awgrymu yw bod y gallu cynhenid i gael profiad crefyddol yn rhan o dreftadaeth esblygol y ddynoliaeth ac yn cynrychioli ymateb cyffredin gan ddynolryw i realaeth drosgynnol. O'r herwydd mae'r cyfryw brofiadau yn debygol o fod yn debyg i raddau ar draws diwylliannau gwahanol.

What these various figures suggest is that a capacity for religious experience is part of humankind's evolutionary heritage and represents a common human response to transcendent reality. As such the experiences are likely to be broadly similar across different cultures. (t. 26)

Mae dwy agwedd yn yr honiad cyntaf hwn yn teilyngu holiad pellach. Beth a olygir ynglŷn â 'threftadaeth esblygol' - 'evolutionary heritage'? A oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol bod y gallu cynhenid i gael profiad crefyddol yn dwyn yn ei sgil fantais esblygol (fel mae'r syniad yn awgrymu)? A beth a olygir gan 'yn debyg i raddau' - 'broadly similar', a sut y cafodd hynny ei sefydlu?

Ail honiad Badham yw:

Ni all un fynd heibio heb weld rhyw gyffredinolrwydd mewn profiad i'r haerriad o gyffredinolrwydd mewn cred. I honni mai'r realaeth eithaf yw duwdod personol yw haeru rhywbeth gwahanol i'r honiad bod y realaeth eithaf yn allu amheronol . . . Rwy'n awgrymu mai i gymryd o ddifrif y realaeth sydd ynghlwm wrth brofiad crefyddol dynolryw, fod hynny'n diddymu unrhyw haerriad unigryw ar ran unrhyw un grefydd unigol.

One cannot pass from seeing a commonality in experience to asserting a commonality in belief. To claim that the ultimate reality is a personal deity is to assert something different from the claim that the ultimate reality is an impersonal force . . . I suggest that to take seriously the reality of human religious experience rules out any exclusivist claim on behalf of any one religion. (t. 20)

Profiad Crefyddol yn Tsieina

Mae dwy agwedd yn yr ail honiad hwn yn teilyngu holiad pellach. Pa fath ar weithgaredd deallusol sydd yn digwydd wrth symud o ddisgrifiad o brofiad crefyddol, tuag at briodoli'r profiad dan sylw i weithgaredd o dduwdod personol neu o allu amheronol? A yw'r archwiliad gwyddonol gofalus o brofiad crefyddol o ddifrif yn diddymu unrhyw haerriad unigryw ar ran unrhyw un grefydd unigol?

Mae traddodiad ymchwil Hardy yn ymwneud yn bennaf gyda chasglu,

disgrifio, a threfnu'r amrywiol brofiadau crefyddol. Mae traddodiadau ymchwil eraill sy'n ymwneud ag astudiaethau gwyddonol cymdeithasol o brofiad crefyddol, gan dynnu ar ddulliau cymdeithasegol a seicolegol, sydd wedi eu sefydlu i ofyn mathau eraill o gwestiynau yn ymwneud â'r cydberthnasau, achosion a chanlyniadau profiad crefyddol. Caiff y safbwyntiau hyn eu trafod, er enghraifft, gan Miles (2007). Mae traddodiadau gwahanol yn gwneud cyfraniadau gwahanol i wybodaeth.

Ôl-nodyn

Yn nes adref, mae Canolfan y Santes Fair wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil ar brofiad crefyddol ac ysbrydol ymysg pobl ifanc. Pe byddech chi'n awyddus i gyfrannu at ein harchif sydd ar gynydd, fe

fyddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyh. Mae pob cyfraniad yn anhysbys ac yn hollol gyfrinachol. I wybod mwy am hyn ewch i:

<http://www.st-marys-centre.org.uk/research/W-Online-surveys.html>

Geirfa

Anghynhwysoliaeth yw'r honiad mai ond un grefydd neilltuol neu system

gred sy'n wir (neu sy'n arwain at iachawdwriaeth).

Pwyntiau trafod

1. A ydych *chi* erioed wedi bod yn ymwybodol o bresenoldeb, neu allu neu wedi cael eich dylanwadu gan bresenoldeb neu allu, pa un ai eich bod yn ei alw'n Dduw ai peidio, sydd yn wahanol i'r hyn ydych chi eich hun o ddydd i ddydd?
2. Beth ddywedwch chi sy'n cyfrif fel 'profiad crefyddol'?
3. Beth mae chwilio am y 'craidd cyffredinol' sy'n rhan o brofiad crefyddol yn ei olygu?
4. A yw'r ymchwiliad gwyddonol ynghylch profiad crefyddol yn caniatáu o ddifrif i unrhyw beth gael ei fynegi am honiadau gwir grefydd?
5. A yw'r ymchwiliad gwyddonol ynghylch profiad crefyddol yn diddymu unrhyw haerriad unigryw sy'n cael ei wneud gan unrhyw un grefydd?

Cyfeiriadau

- Badham, P. (2011). Researching religious experience from a comparative perspective: The Alister Hardy global project. *Interreligious Insight*, 10(2), 18-27.
- Fox, M. (2003). *Religion, spirituality and the near-death experience*. London: Routledge.
- Fox, M. (2008). *Spiritual encounters with unusual light phenomena: Lightforms*. Cardiff: University of Wales Press.
- Hardy, A. (1966). *The divine flame*. London: Collins.
- Hardy, A. (1975). *The biology of God*. London: Jonathan Cape.
- Hardy, A. (1979). *The spiritual nature of man*. Oxford: Oxford University Press.
- Miles, G. (2007). *Science and religious experience: Are they similar forms of knowledge?* Brighton: Sussex Academic Press.
- Robinson, E. (1977). *The original vision*. Oxford: Religious Experience Research Unit.
- Robinson, E. (Ed.) (1977). *This time-bound ladder*. Oxford: Religious Experience Research Unit.
- Robinson, E. (Ed.) (1978). *Living the questions*. Oxford: Religious Experience Research Unit.
- Yao, X., & Badham, P. (2007). *Religious experience in contemporary China*. Cardiff: University of Wales Press.

Mae'r Parchedig Ganon Athro Leslie J Francis yn offeiriad Anglicanaidd ac yn Gymrawd y Gymdeithas Seicolegol Brydeinig. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg ym Mhrifysgol Warwick, a hefyd mae'n gwasanaethu fel Canon Diwinyddol ar gyfer Eglwys Gadeiriol Bangor yng Nghymru. Mae'n ymchwilio a chyhoeddi mewn tri phrif faes: addysg grefyddol, diwinyddiaeth ymarferol a seicoleg crefydd. Gellir cael hyd i wybodaeth bellach ar: <http://www2.warwick.ac.uk/fac/soc/wie/research/wreru/aboutus/staff/lf/>

Moeseq Rhyw Gristnogol: Cyfunrywioldeb a Phriodas

Stephen Parker

Mae'r erthygl hon yn archwilio rhai rhesymau dros wrthwynebu priodas un-rhyw o ran rhai Cristnogion, sut mae Cristnogion o'r fath yn llunio'u moeseq ac ar beth mae'r foeseq hon yn seiliedig. Yn olaf, mae'n disgrifio persbectif moeseqol Cristnogol amgen yn ôl safbwynt y clergwr Anglicanaidd, Jeffrey John.

Cyswllt manylion: CBAC AC1/2 ETH: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseq (AS), 4. Moeseq gymhwysol.

Mae moeseq rhyw Gristnogol a dealltwriaethau am briodas yn faes neilltuol o gynhennus ar hyn o bryd. Mae ymgyrchoedd ynghylch priodasau un-rhyw, estyniad o'r trefniadau ar gyfer y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, wedi achosi dychryn ymysg rhai Cristnogion, sy'n gweld y gallai hyn o bosib danseilio'r ddealltwriaeth draddodiadol o beth yw priodas. Yn y cyd-destun rhyddfrydig hwn mae gwrthwynebiad Cristnogol i'r hyn sy'n ymddangos yn sefyllfa fwy goddefgar a chynyddol yn ymddangos yn hen-ffasiwn, a hyd yn oed yn gul. Yn wir, mae gwrthwynebiad o'r fath yn ymddangos prin yn ddealladwy, ac yn groes i'r syniad bod Cristnogaeth yn grefydd o gariad.

Beth yw'r rhesymau dros y gwrthwynebiad egwyddorol hwn i briodas un-rhyw o ran rhai Cristnogion? Sut mae'r Cristnogion hynny'n llunio'u

moeseq, ac ar beth mae'r foeseq hon yn seiliedig?

Y Beibl a chyfunrywioldeb

Mae Cristnogion yn deall mai gair Duw yw'r Beibl, er yn ddiwinyddol mae hyn yn golygu gwahanol bethau i wahanol Gristnogion. Yn achos rhai Cristnogion (y mae'n bosib eu disgrifio fel Efengylaidd) mae'n bosib darllen y datguddiad sydd i'w gael yn y Beibl fel bod yn uniongyrchol berthnasol i'r presennol: caiff y Beibl ei ddarllen yn arferol fel llyfr sydd ag awdurdod i arwain bywydau ysbrydol a moesol Cristnogion. Nid dweud y mae hynny bod y Cristnogion hyn yn cymryd testunau Beiblaidd allan o'u cyd-destun neu eu gosodiadau hanesyddol, dim ond bod y ffactorau hyn yn llai pwysig na'r ymgyfarfod personol rhwng y testun a'r darllenydd. Yn gyffredinol, mae'r Cristnogion hyn yn dal

Moeseg Rhyw Gristnogol

y safbwynt bod perthynas un-rhyw yn anfoesol am ei fod yn ôl eu darlleniad hwy o'r Beibl yn nodi ei fod yn bendant yn hollol wrthwynebol i berthnasoedd o'r fath. Dyma'r testunau Beiblaidd sy'n cael eu darllen a'u dyfynnu fel rhai perthnasol wrth lunio gwrthwynebiad i gyfathrach rywiol rhwng dau o'r un rhyw: Genesis 1:26-28; Genesis 19; Lefiticus 18:22, 20:13; Rhufeiniaid 1:26-27; 1 Corinthiaid 6:9 a 1 Timotheus 1:10. (Mae'n debyg y byddai'n werth troi i'r Beibl ar y pwynt hwn, a darllen y testunau.)

Yn achos Cristnogion eraill, mewn gwrthgyferbyniad - ac mae hyn yn torri ar draws llinellau enwadol Cristnogol, mae'r Beibl yn cael ei ddarllen mewn ffordd wahanol oherwydd bod y syniad mai gair Duw ydyw yn cael ei ddeall yn wahanol. I'r Cristnogion hyn (a allai ddisgrifio'u hunain fel 'radical' neu 'ryddfrydig', ond beth bynnag yn llai ceidwadol na'r rhai a ddisgrifir uchod), mae dynoldeb y Beibl yn cael ei ddwysáu mewn ystyr. Mae'r Beibl, fe fydden nhw'n dadlau, yn llw o ddogfennau hanesyddol a gwahanol fathau o lenyddiaeth, a oedd ar adegau penodol mewn hanes lddewig wedi eu casglu ynghyd i gyfrol sengl o lyfrau. Fe fydden nhw'n haeru bod darllen y Beibl yn llawer mwy cymhleth nag y mae unrhyw ddarllen *prima facie* yn gwneud cyfiawnder ag o. Os yw rhywun yn darllen y Beibl yn ddefosiynol, yn y ffordd a ddisgrifir uchod, rhaid iddo ef neu hi wneud hynny'n ofalus, gan beidio ag anghofio ei briodweddau amodol: y cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol yr ysgrifennwyd y Beibl ynddo, y pwrpas gwleidyddol yr oedd yn ei gyflwyno, a'r prosesau golygyddol oedd ynglŷn â hyn, wrth ei gasglu ynghyd. Mae darllen y Beibl, fe fydden nhw'n dadlau, yn weithgaredd comunol, yn un sy'n cael ei wneud orau mewn ffordd feirniadol yng

nghyd-destun yr eglwys, gan gymryd i ystyriaeth ysgolheictod academaidd.

Sut mae testunau Beiblaidd yn cael eu darllen mewn gwahanol ffordd gan Gristnogion

Genesis 1:26-28

Yn ôl naratif y creu, mae'n dweud bod Duw wedi creu 'dyn' a 'gwraig' fel bodau ar wahân ond a oedd yn gwneud pâr â'i gilydd. Yn achos llawer o Gristnogion, mae hyn yn dynodi mai'r hyn yr oedd Duw'n ei fwriadu oedd gwneud pâr corfforol, rhywiol ac mai priodas draddodiadol oedd dull Duw o wneud hynny o'r dechrau. Mae'r gwahaniaethau corfforol amlwg sydd rhwng y ddau ryw yn pennu beth sy'n arferol. O'i roi mewn geiriau syml, mae cael cyfathrach rywiol gyda rhywun o'r un rhyw yn annaturiol (yn groes i'r hyn a fwriadai Duw) ac mae felly'n anfoesol. Mae rhai Cristnogion yn defnyddio'r testun hwn fel sail ar gyfer moeseg deddf natur: sef bod perthnasoedd un-rhyw yn groes i gynllun Duw ar ein cyfer. Yn hanfodol, y safbwynt hwn sy'n tanategu gwrthwynebiad i'r syniad o briodas un-rhyw o blaid y syniad traddodiadol o briodas fel gydol oes ac unweddog.

Darlleniad amgen:

Mae rhai Cristnogion yn haeru nad yw naratif y creu, o ddifrif, yn cynrychioli pethau fel y maen nhw yn wir yn eu hamrywiaeth. Mewn gwirionedd mae llawer o fodau dynol yn cael eu geni gyda synnwyr o atyniad rhywiol tuag at unigolion o'r un rhyw: mae rhywioldeb yn llawer mwy cymhleth na'r gwrthwyneb deuaidd y mae'r gwahaniaethau corfforol rhwng y ddau ryw yn ei gynrychioli. Ymhellach, nid yw naratif y creu wedi ei fwriadu i gael ei ddarllen mewn ffordd lythrennol (e.e. ddaeth y bydysawd ddim

Moeseg Rhyw Gristnogol

i fodolaeth ar unwaith dros gyfnod o chwe diwrnod); yn hytrach mae'r stori'n mynegi dechreuad eithaf y bydysawd yn Nuw. Yn union fel nad yw manylion y stori, fel y drefn y digwyddodd y creu, i fod i gael eu darllen fel pethau ffeithiol, felly mae holl naratif y creu yn y pen draw'n drosiadol, ac o'r herwydd mae'n amhosibl ei gymryd i fod yn rhagnodol foesebol.

Genesis 19

Mae rhai Cristnogion yn darllen y testun hwn fel barn Duw ar ffordd o fyw gwrywgydiol dynion Sodom (o hynny y cawsom y term difriol 'sodomiaeth'), a oedd yn mynnu bod ymwelwyr â'r dref yn cael eu rhoi iddyn nhw fel y bydden nhw'n cael 'cyfathrach â hwy'. Mae Duw'n beirniadu Sodom a Gomorra am y trosedd gwrywgydiol hwn yn erbyn yr ymwelwyr. Mae barn Duw'n cael ei chyffredinoli i farnu pob perthynas unrhyw fel perthynas anfoesol.

Darlleniad amgen:

Mae testunau Beiblaidd eraill yn anghytuno ynghylch beth oedd pechod Sodom. Er enghraifft, mae Eseciel 16:49 yn ymddangos fel pe bai'n awgrymu ei fod gymaint oherwydd yr anghyfiawnder a fodolai yn y dref ag oedd oherwydd unrhyw weithred ar ei phen ei hun o dreisio torfol. Er hynny, hyd yn oed os mai dyna'r achos, sef bod gweithredoedd troseddol felly wedi achosi barn Duw, a yw'n bosib cymharu gweithredoedd o'r fath gyda rhyw cariadus lle mae dau'n cydsynio?

Lefiticus 18 a 20

Y testunau hyn sy'n cael eu dyfynnu amlaf mewn perthynas ag anfoesoldeb cyfathrach rywiol unrhyw. O'u derbyn ar eu golwg, mae'n ymddangos yn glir eu bod yn condemnio rhyw cyfunrywiol. Yn wir, fe fyddai rhai Cristnogion yn dadlau,

dyma'n union y maen nhw'n ei gondemnio.

Darlleniad amgen:

Mae'r ddau destun wedi eu tynnu allan o'r hyn a elwir y Cod Sancteiddrwydd. Dyma'r fframwaith cyfreithiol a moesol a oedd yn helpu i wahaniaethu gwlad Israel oddi wrth ei chymdogion yn yr hen fyd, yn condemnio cyfunrywioldeb ochr yn ochr â phethau fel trimio barf, bwyta pysgod cregyn a defnyddio amrywiaeth o edafedd wrth wneud dillad. A yw cod o'r fath felly'n ddefnyddiol i ni wrth bennu moesoldeb rhyw heddiw? Os felly, yna pam canolbwyntio barn foesol ar yr elfen hon yn unig o'r cod ac nid ar y pethau eraill? Yng ngolwg llawer o Gristnogion, mae'r testun hwn yn amherthnasol i lunio moeseg rhyw yn yr unfed ganrif ar hugain. Fe fyddai'n anghyson defnyddio'r testun hwn heb ddefnyddio elfennau eraill y Cod Sancteiddrwydd os mai dyna fyddai sail safbwynt moesol Cristnogol ar y mater.

Rhufeiniaid 1:26-27

Mae'r testun hwn yn adleisio naratif y creu uchod, ond mae'n mynd ymhellach trwy awgrymu bod y rhai hynny sy'n ymwneud ag ymarferiadau cyfunrywiol yn rhoi'r gorau i ymddygiad naturiol (heterorywiol) o blaid nwydau annaturiol. Caiff cyfunrywioldeb ei ddarlunio yma fel bod yn rhan o'r 'cwmp' – yr ystyfnigrwydd a'r pechadurusrwydd sy'n dod i fodolaeth ar ôl pechod cyntaf Adda ac Efa.

Darlleniad amgen:

Ceir y rhagdybiaeth yn y darlleniad hwn bod unrhyw un sy'n ceisio cyfathrach rywiol gyda rhywun arall o'r un rhyw, yn fwiadol ac yn rhydd, yn rhoi'r gorau i berthynas heterorywiol o blaid perthynas gyfunrywiol. Mae'r tesun yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth mai heterorywioldeb

Moeseg Rhyw Gristnogol

yw'r norm, heb unrhyw gysyniad y gall unigolion gael eu geni gyda thueddfryd rhywiol amgen.

1 Corinthiaid 6:9 a 1 Timotheus 1:10

Mae'r ddau destun hwn yn condemnio'r bobl hynny sy'n ymarfer cyfunrywioldeb, ac yn eu categoreiddio gyda phechaduriaid eraill sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas (y ffordd Gristnogol). Eto mae'r testunau hyn yn ymddangos yn ddiawms wrth gyhoeddi bod cyfunrywioldeb yn anfoesol ac am hynny'n anfoesol yn dragywydd.

Darlleniad amgen:

Fodd bynnag, beth yn union sy'n cael ei gondemnio yma? Mae rhai ysgolheigion yn dadlau mai'r math o weithredoedd rhywiol sy'n cael eu condemnio yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â hyn yng nghydestun eilunaddoliaeth: dynion hyn yn cael rhyw gyda'r rhai hynny sy'n cael eu cyflogi i'r pwrpas fel puteiniaid teml. Yr hyn sy'n derbyn condemniad moesol yma yw nid y perthnasoedd un-rhyw cariadus lle mae dau'n cydsynio, ond yn hytrach y prynu rhyw er mwyn plesio'r duwiau.

Yng ngoleuni'r gwahanol ffyrdd hyn o ddarllen y testunau Beiblaidd, daw safbwyntiau cymysg Cristnogion ynghylch moesoldeb perthnasoedd un-rhyw yn glir. Ond, lle mae Cristnogion yn dal ar safbwynt rhyddfrydig ar berthnasoedd un-rhyw sy'n ymddangos eu bod yn gwyro o ddarlleniad syml o'r Beibl, mae'n bosib gwneud cyhuddiad o berthynolaeth. Os yw darlleniad o'r testun Beiblaidd yn agored i'w gymhwyso yn y ffordd hon, oes bosib felly cael moeseg rhyw Gristnogol ac, os oes, ar beth y gellir ei seilio? A yw hi'n bosibl i briodas un-rhyw fod yn foesegol o safbwynt moesol Cristnogol?

Parhaol, Ffyddlon a Sefydlog - Jeffrey John

Clerigwr Anglicanaidd yw Jeffrey John sydd wedi bod yn hollol agored am ei gyfunrywioldeb. Daeth John i'r newyddion yn 2003 pan wrthododd wahoddiad i fod yn esgob yn Eglwys Loegr oherwydd ymateb negyddol yr eglwys i'r cyhoeddiad bod dyn a oedd mor agored ynghylch y ffaith ei fod yn hoyw i gael ei ddirchafu i rôl uwch o'r fath. Ymhell cyn hyn, roedd John wedi dadlau bod arddull neilltuol o berthynas rywiol, un wedi ei nodweddu gan barhauster, ffyddlondeb a sefydlogrwydd, yn foesol yn yr ystyr Gristnogol, waeth beth fo'r thueddfryd rhywiol. Dadl John yw nad oes unrhyw sail i wahaniaethu moesoldeb perthnasoedd cyfunrywiol oddi wrth berthnasoedd heterorywiol. Nid yw'r Beibl yn condemnio cyfunrywioldeb *per se*, yn hytrach mae'n condemnio gweithredoedd (cyfun)rywiol sy'n cael eu gorfodi, sy'n dreisgar, yn gamdriniol ac yn ysgafala. Ymhellach, does yn y Beibl ddim synnwyr o rywioldeb dynol fel mae'n cael ei ddeall yn gyffredin yn awr: hynny yw, fel ystod amrywiol neu sbectwm o thueddfryd. Oherwydd hyn, mae angen darllen y Beibl mewn ffordd ddoeth, yn hytrach na'i gymhwyso'n slafaidd i gwestiynau o foesoldeb rhyw.

Mae John yn dadlau bod cymdeithas gyfoes wedi dod yn fwyfwy goddefol ac yn fwy parod i dderbyn cyfunrywioldeb, yn aml yn wyneb gwrthwynebiad o'r eglwys. Yng ngolwg John, mae'r symud tuag at briodas un-rhyw yn ym Mhrydain yn arwyddluniol o normaleiddio perthnasoedd cyfunrywiol fel y gall perthnasoedd o'r fath, yn hytrach na chael eu gyrru o'r golwg, gael eu byw'n agored mewn ffordd gyhoeddus gan feithrin y 'parhauster' sy'n nodi'r delfryd

Moeseg Rhyw Gristnogol

Cristnogol. Mae priodas yn darparu cyd-destun y gall perthnasoedd gael eu dathlu ynddo a'u cadarnhau'n gyhoeddus o flaen Duw, rhywbeth nad yw Cristnogion lesbaidd a hoyw wedi bod yn abl i'w wneud hyd yma.

Dadleua John fod ffyddlondeb yn nodwedd o berthnasoedd rhywiol moesol. Mae priodas yn cynnig cyd-destun ar gyfer perthnasoedd monogamaidd o'r fath; heb fframwaith cymdeithasol o'r fath, anogir amlgymharaeth ac ansefydlogrwydd. Mae parhauster y cyd-destun priodasol yn darparu sicrwydd emosiynol a materol, sy'n dda i'r rhai sydd a wnelo â hyn. Mae priodas unrhyw yn darparu cyd-destun tebyg o sefydlogrwydd ar gyfer perthnasoedd unrhyw fel ag a wnaiff ar gyfer perthnasoedd heterorywiol. Trwy sefydlu a chyfreithloni priodas unrhyw yn y D.U., mae cyfunrywioldeb yn cael ei dynnu allan o'r categori 'anfoesol' a'i normaleiddio'n briodol.

Dadleua John fod cyfunrywioldeb wedi cael ei ystyried, am ormod o amser, yn

anfoesol ar y sail ei fod yn gymdeithasol ac yn grefyddol anghymeradwy, gan achosi pryder aruthrol, a difetha bywyd unigolion dirifedi. Mae'r cyfryw anoddefgarwch o gyfunrywioldeb, sy'n seiliedig yn bennaf ar ddarllen y Beibl mewn ffordd wallus, wedi cael ei gefnogi gan yr eglwys, gan staenio'i hanes.

Casgliad

Mae'r farn ynghylch priodas unrhyw yn bygwth rhannu'r Cymuned Anglicanaidd (teulu byd-eang yr eglwysi Anglicanaidd) mewn ffordd anadferadwy. Mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu gan safbwyntiau cyferbyniol Cristnogion ledled y byd, sy'n amrywio o fod yn oddefgar neu anoddefgar ynghylch cyfunrywioldeb. Mae darlenniadau diwygiedig Jeffrey John o'r Beibl, a'i ddadl bod perthnasoedd rhyw moesol yn deillio o'r strwythurau cymdeithasol sy'n cael eu creu ar eu cyfer, yn cynnig persbectif amgen sy'n apelio at rai Cristnogion.

Moeseg Rhyw Gristnogol

Pwyntiau trafod

1. Beth sydd fwyaf argyhoeddiadol yn eich barn chi: y darlenniadau syml o'r testunau Beiblaidd neu'r darlenniadau amgen, a pham?

2. Beth yw'r peryglon ehangach i Gristnogion wrth ddarllen y Beibl mewn ffordd berthynolaidd foesol?

3. A yw agwedd yr eglwys tuag at gyfunrywioldeb yn cael ei gyrru gan

agweddau cymdeithasol sy'n newid tuag ati, neu a yw'r eglwys yn arwain mewn newid agweddau?

4. A yw dadl Jeffrey John yn dal dŵr, sef bod moesoldeb rhyw yn cael ei feithrin gan ffactorau cymdeithasol allanol yn hytrach na chymhellion mewnol?

Cyfeiriadau a darllen pellach

John, J. (2012). *Permanent, faithful, stable: Christian same-sex marriage*. London: Darton, Longman and Todd.

Thatcher, A. (1993). *Liberating sex: A Christian sexual theology*. London: SPCK.

Vardy, P., & Grosch, P. (1994). *The puzzle of ethics*. London: Fount.

Cyn athro ysgol yw Dr Stephen Parker, sydd ar hyn o bryd yn Bennaeth Astudiaethau Ôl-radd a Chydlynnydd Myfyrwyr Ymchwil yn Sefydliad Addysg Prifysgol Worcester. Tra mae ei ddiddordebau neilltuol yn cynnwys hanes diweddar addysg grefyddol, mae ei ymchwil a'i gyhoeddiadau'n eistedd yn y rhyngwyneb ehangach rhwng crefydd, addysg a chymdeithas. Ymysg llyfrau eraill mae wedi cyhoeddi (gyda Tom Lawson) God and war: The Church of England and armed conflict in the twentieth-century, Aldershot: Ashgate, 2012, ac mae wedi ysgrifennu ar 'Life After Death and Personhood', yn Dialogue: A Journal of Religion and Philosophy, rhifyn 29, Tachwedd 2007.

Twf Pentecostaliaeth newydd ym Mhrydain: Beirniadaeth ar Seciwlariaeth

William K. Kay

Mae'r erthygl hon yn disgrifio damcaniaeth o seciwlariaeth sy'n amlinellu'r ffordd y mae crefydd wedi colli tir mewn cymunedau diwydiannol. Ar ôl dangos, mewn dulliau cyffredinol sut mae'r ddamcaniaeth wedi cael ei beirniadu, mae'r erthygl yn darparu enghraifft o fudiad crefyddol sydd wedi ffynnu er gwaethaf y dirywiad mewn man arall.

Cyswllt manyleb: CBAC AC1/2 CS: Cyflwyniad i Grefydd yn y Gymdeithas Gyfoes (AS), 3. Crefydd a chymuned.

Seciwlariaeth

Mae damcaniaethau cymdeithasol yn disgrifio cymdeithasau. Un o'r damcaniaethau cymdeithasol mwyaf adnabyddus yw honno sy'n ymwneud â seciwlariaeth. Mae'r ddamcaniaeth hon yn cyfeirio at y rhesymau dros y newidiadau i gwmpas, pwysigrwydd, swyddogaeth a phoblogrwydd crefydd. Fel arfer bydd y ddamcaniaeth yn tynnu ar ystadegau crefyddol ynghylch presenoldeb mewn gwasanaethau eglwysig, bedydd, priodas crefyddol, claddedigaethau crefyddol a chredoau crefyddol ac yn egluro pam, mewn sawl cymdeithas Orllewinol, bod y mwyafrif o'r indecsau hyn am grefydd wedi dirywio dros y canrifoedd diweddar. Yn ei ffurf gyffredinol mae'r ddamcaniaeth yn datgan, gan ddechrau ar bwynt uchel naill ai yn yr Oesoedd Canol pan oedd yr eglwys yn tra-arglwyddiaethu ar Ewrop

neu yng nghyfnod Victoria pan, ym Mhrydain, y byddai oddeutu hanner y boblogaeth yn mynychu eglwys ar unrhyw Sul, mae cred ac ymarfer crefyddol wedi dirywio, ac o ganlyniad, mae dylanwad crefydd ar fywyd cyhoeddus wedi prnhau. Mae enciliad crefydd wedi digwydd trwy ddiwydiannaeth, trefoli, lledaeniad biwrocratiaeth, y cynnydd mewn unigoliaeth, y llwyddiannau mewn gwyddoniaeth a'r holl amwt o brosesau diwylliannol a deallusol a ddechreuodd gyda'r Chwyldroadau Ffrengig neu'r Diwydiannol. Y gosodiad sylfaenol yw bod moderniaeth yn creu problemau i grefydd - *'The basic proposition is that modernisation creates problems for religion'* (Bruce, 2002, t. 2).

Noda'r ddamcaniaeth bod crefydd ar un adeg yn system ddamcaniaethol hollgwmpasog oedd yn cael ei mynegi

Twf Pentecostaliaeth Newydd

gan sefydliadau grymus. Roedd ei diwinyddiaeth nid yn unig yn egluro pam yr oedd y byd yn gweithio fel yr oedd, ond hefyd pam oedd cymdeithas wedi ei threfnu yn y fath fodd. Roedd cynaeafau yn dda neu'n ddrwg ar bwys ewyllys Duw, ac roedd Rhagluniaeth Ddwyfol yn egluro pam roedd rhai pobl yn gyfoethog ac eraill yn dlawd, neu fod rhai yn wael ac eraill yn iach. Roedd yr eglwys, yn ymddangos fel sefydliad grymus aml haenog, yn cefnogi ac yn ardystio llywodraeth y dydd ac yn ymestyn allan at y gymdeithas gyfan trwy ysgolion ac ysbytai. Ond, fel yr oedd rhesymoldeb yn cael ei roi ar led gan addysg seciwlar, ac fel yr oedd awdurdod gwyddonol yn lledaenu, cafodd grym deallusol crefydd a'i rôl gymdeithasol eu herio. Roedd llai a llai o ddirgelion i'w hegluro. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr hyn a elwir y Gorllewin, fel yr oedd pobl yn symud o'u pentrefi sefydlog i'r dinasoedd heigiog newydd ddaeth gyda'r Chwyldro Diwydiannol, cafodd rhythm yr amaethyddiaeth gymunedol hynafol ei anghofio yn amgylchfyd swnllyd y ffatri. Disodlwyd yr offeiriad gan y gwyddonydd, y gweithiwr cymdeithasol a'r therapydd. Disodlwyd gwirioneddau crefydd gan wirioneddau gwyddoniaeth a thechnoleg. Cafodd dinasyddion eu trapio mewn caets o haearn 'iron cage' gan fiwrocratiaeth rhesymoldeb seciwlar. (Weber, 1904-5, 2003, p. 183: <http://plato.stanford.edu/entries/weber/>). Roedd hi'n ymddangos bod hanes yn symud i gyfeiriad di-droi yn ôl fyddai'n gwrthio crefydd oddi ar y llwyfan cyhoeddus a'i wneud yn rhywbeth o ddiddordeb lleiafrifol wedi ei neilltuo ar gyfer bywyd preifat. O ganlyniad, *'secularization has resulted in a widespread collapse of the plausibility of traditional religious definitions of reality . . . [that] has its correlate on the social-*

structural level' (Berger, 1969, 1990, t. 128).

Trafodaethau a seciwlariaeth

Dywedodd Martin, wrth iddo ddechrau'r feirniadaeth ar y cysyniad o seciwlariaeth yn 1965, iddo awgrymu bryd hynny fod ganddo wreiddiau mewn ideoleg rhesymoliaeth a hanesyddol yr oedd angen eu dwyn i'r wyneb, *'When I initiated the critique of the concept of secularisation in 1965, I suggested that it had roots in rationalist and historicist ideology which needed to be exposed'* (Martin, 2005, t. 141). Roedd David Martin yn deall bod damcaniaeth seciwlaryddiaeth yn ddehongliad dylanwadol yn ymwneud â data crefyddol oedd yn gorwedd ar ragdybiaethau athronyddol oedd wedi eu llunio gyda'r bwriad o ddarllen y dystiolaeth mewn ffyrdd neilltuo. Mae rhesymoliaeth yn gweld bod pob gwybodaeth yn deillio o resymoldeb ac o'r herwydd yn cwestiynu gwerth gwybodaeth sy'n honni dod o ffydd neu reddf. Mae hanesyddiaeth yn gweld hanes fel rhywbeth sy'n cael ei yrru ymlaen gan ddeddfau datblygiad sy'n gwneud y dyfodol yn osodedig.

Mae Max Weber, a oedd wedi cyferbynnu awdurdod cyfreith-resymol ag awdurdod carismataidd sefydlwyr mudiadau crefyddol newydd, yn cytuno gydag Ernst Troeltsch trwy wneud gwahaniaethau amlwg rhwng eglwysi, enwadau a sectau. Mae eglwysi'n gynhwysol, yn agored i ddiwylliant a chymdeithas ac ni wnânt ofyniadau afresymol ar eu haelodau; mae sectau yn gyfyngedig, dwys, yn gofyn llawer, ond yn gwneud iawn trwy gynnig mwy o sicrwydd crefyddol; mae enwadau tua hanner y ffordd rhwng eglwysi a sectau

Twf Pentecostaliaeth Newydd

ac yn enwog am eu hawydd i dderbyn dilysrwydd grwpiau crefyddol eraill (e.e. bydd Methodistiaid yn derbyn Bedyddwyr). Yn sicr, bydd newid cymdeithasol yn cael effaith yn wahanol ar y tri chategori o grŵp crefyddol, gydag eglwysi yn cael eu dylanwadu fwyaf gan gymdeithas a sectau yn cael eu dylanwadu leiaf.

Tra bo damcaniaeth seciwlariaeth yn ymgais i egluro dirywiad crefydd yn Ewrop, fe fethodd egluro'r hyn oedd yn digwydd i grefydd yn yr UDA. Wedi'r cyfan, mae'r UDA yn fodern a diwydiannol fel Ewrop ac eto mae ei hindecsau crefyddol yn llawer uwch. Fe geisiodd y trafodaethau rhwng cymdeithasegwyr gymodi'r gwahaniaethau ar y ddwy ochr i'r lwerydd. Efallai bod crefydd yn dirywio yn Ewrop oherwydd ei gysylltiad â llywodraeth - yr hyn a elwir yn grefydd 'sefydledig' - tra yn yr UDA roedd marchnad rydd crefyddol wedi bodoli erioed ac ni fu unrhyw gysylltiad cyfansoddiadol rhwng llywodraeth ag eglwys. Roedd rhai cymdeithasegwyr yn dadlau dros ddirywiad anochel crefydd tra bod eraill yn gweld y broses hanesyddol fel rhywbeth sy'n symud yn ôl ac ymlaen gyda diwygiadau crefyddol rhwng cyfnodau o ddirywiad. Gwelodd rhai ddirywiad crefyddol yn Ewrop fel canlyniad i newidiadau pellach yn swyddogaeth cymdeithasau gwirfoddol. Nododd eraill bod crefydd efallai'n symud yn wysg ei hochr *'moving sideways'* tuag at ysbrydolrwydd a bod, er enghraifft, marwolaeth y Dywysoges Diana wedi ennyn arddangosfeydd cyhoeddus o ddefod crefyddol wrth i bobl adael blodau mewn safleoedd dros y wlad gyfan a bod telediad wedi digwydd o'i hangladd Cristnogol ffurfiol (Davie, 2000, t. 109). Mae arddangosfeydd *cyhoeddus* fel hyn yn dyst nad yw'r gymdeithas ym

Mhrydain wedi cael ei seciwlarieiddio'n llwyr.

Neo-Pentecostaliaeth

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd dyhead cyffredin am adfywiad Cristnogol, a daeth hyn i'r amlwg ar ei orau yn y D.U. gyda'r diwygiad Cymreig yn 1904-5 pan wnaeth tua 100,000 o bobl naill ai adnewyddu eu hymrwymadau crefyddol neu ymuno ag eglwysi a chapeli am y tro cyntaf. Yn deillio o'r dyhead hwn am adnewyddiad fe ymddangosodd cyfres o enwadau newydd oedd yn pwysleisio gwaith yr Ysbryd Glân fel y'i disgrifir yn y Testament Newydd ac a ddechreuodd ar Ddydd y Pentecost. Cafodd yr eglwysi hyn eu galw'n eglwysi 'Pentecostaidd' ac roedden nhw'n caniatáu ac yn annog llefaru â thafodau, gwyrthiau, iacháu a ffenomenau eraill tebyg.

Yn ystod yr 1920au a'r 1930au, fe gynyddodd nifer yr eglwysi hyn yn raddol ym Mhrydain nes bod tua 1,000 o gynulleidfaoedd, rhai ohonyn nhw wedi eu sefydlu trwy gyfarfodydd efengylaidd cyhoeddus mawr lle'r oedd y rhai a oedd yn wael yn derbyn gweddi. Fe barhaodd yr eglwysi hyn hyd at yr 1950au. Roedd eu gogwydd ar y dechrau yn sectyddol ond yn raddol fe wnaethon nhw fabwysiadu agwedd fwy enwadol a dechrau perthnasu â grwpiau Cristnogol eraill.

Yn y 1960au fe ddechreuodd y mudiad carismataidd. Mudiad digymell oedd hwn yn gweld y ffenomenau Pentecostaidd fel gwyrthiau a llefaru â thafodau yn digwydd yn yr eglwysi prif-lif. Fe groesawodd y Bedyddwyr, y Methodistiaid, yr Anglicaniaid, y Pabyddion ac eraill adnewyddiad ysbrydol a oedd yn dwyn gydag ef bwyslais ar wirionedd a phresenoldeb yr Ysbryd Glân.

Twf Pentecostaliaeth Newydd

Yn y 1970au fe ymunodd y bobl fwyaf radical yn y mudiad carismataidd, ynghyd â rhai o blith y Pentecostaliaid, i ffurfio eglwysi newydd neu eglwysi mewn tai, neu fel y cawsant eu galw'n ddiweddarach yn rhwydweithiau apostolaidd '*apostolic networks*' ac roedd eu harweinwyr yn arddangos llawer o nodweddion arweinyddiaeth garismataidd a nodwyd gyntaf gan Weber (Walker, 1998; Kay, 2007). O ganlyniad roedd yn awr tair ffrwd gyfochrog: Pentecostaidd, carismataidd a neo-Pentecostaidd. Roedd y Pentecostaliaid wedi trefnu eu hunain mewn patrymau enwadol gydag uwch-arolygwyr, cynadleddau a rhwymiaidau cyfreithiol eraill. Fe arhosodd y Carismataid oddi mewn i'w strwythurau enwadol, er fe fydden nhw'n arfer dod at ei gilydd ar gyfer cynadleddau'r haf a'r rhai oedd yn cael eu trefnu gan *Spring Harvest*. Roedd y Neo-Pentecostaliaid wedi eu trefnu yn fwy llac i rwydweithiau yn cael eu harwain gan arweinwyr apostolaidd oedd yn derbyn eu hawdurdod o'u gweinidogaethau carismataidd yn hytrach nag o'r swydd yr oedd nhw ynddi.

Neo-Pentecostaliaeth a seciwlariaeth

Fe gydnabyddodd Bruce (2002) a Berger (1970) ill dau fod damcaniaeth seciwlariaeth yn caniatáu ymddangosiad o grefyddau newydd oddi mewn i grwpiau crefyddol mewn cymdeithas sy'n bennaf seciwlar. Nododd Berger, er enghraifft, bod 86 y cant o Americanwyr yn credu yn Nuw fel, gyda chefnogaeth pobl grefyddol o'r un anian, mae'n deall sut y gall ffurfiau newydd o grefydd ddod i fodolaeth a ffynnu er gwaethaf hinsawdd sy'n gyffredinol groes (t. 39). Gallwn adnabod tair ffordd yr oedd Pentecostaliaid yn gwrthwynebu tueddiadau seciwlareiddio: trwy

ddysgeidiaeth sancteiddrwydd, trwy bwyslais ar yr Ysbryd Glân a thrwy feithrin yr agweddau emosiynol sy'n perthyn i grefydd.

Roedd Pentecostaliaid ym Mhrydain yn yr 1920au yn cadw at reolau sancteiddrwydd oedd yn eu cadw allan o fywyd cyhoeddus prif-lif: doedden nhw ddim yn darllen nofelau, na mynd i'r sinema, dim yn yfed alcohol, nac yn edrych ar gemau pêl-droed, nac yn ymwneud â diwylliant anghrefyddol mewn unrhyw ffordd arall. Hyd yn oed yn eu hefengyliaeth roedd nhw ar egwyddor yn sefyll yn erbyn syniadau modern a, phan oedd angen hyfforddiant ar eu gweinidogion, roedd nhw'n sefydlu eu seminarau eu hunain. Yn y ffordd hon roedd nhw'n amddiffyn eu hunain rhag safbwyntiau bydol oedd yn elyniaethus i'w rhai eu hunain.

Ond mae gan y Pentecostaliaid a'r neo-Pentecostaliaid beth yn gyffredin, sef eu bod yn croesawu gweithredoedd yr Ysbryd Glân. Hyd yn oed mewn oes wyddonol, mae cred gyffredinol mewn drychiolaethau, ysbrydion, a horosgopau yn dangos bod pobl gyffredin yn agored i ffenomenau anesboniadwy. Gallwn ddweud bod (neo-) Pentecostaliaeth wedi torri trwodd at yr isddiwylliant hwn ond fe wnaeth hynny trwy gyfeirio at y profiadau ysbrydol hynny y ceir disgrifiad ohonyn nhw yn y Testament Newydd. Fe ddaeth eu dysgeidiaeth ar yr Ysbryd Glân â byd y Beibl a'r byd heddiw i gydgyssylltiad agos fel bo'r naill yn berthnasol i'r llall. Mewn termau trosiadol ni fyddai'r 'caets haearn o resymoldeb' yn gallu cynnwys hen wynt yr Ysbryd Glân.

Gellir dadlau hefyd y gall crefydd prif-lif mewn adeiladau hardd o feini gydag iaith hen-ffasiwn y llyfr gweddi a threfn a phatrwm y litwrgi fod yn rhy ymenyddol wrth ymwneud ag agwedd emosiynol

Twf Pentecostaliaeth Newydd

sy'n perthyn i fywydau pobl. Dyma pryd y bydd (neo-) Pentecostaliaeth, gyda'r modd y mae'n derbyn llawenydd a chyffro gwyrthiau, yn apelio at y galon ac yn llwyr osgoi'r pwysau deallusol sydd ynghlwm wrth seciwlariaeth. Ar yr un pryd mae'r pwyslais sydd ganddi ar iacháu yn ei wneud yn grefydd gyfannol, un sy'n rhan o'r corff yn ogystal â'r meddwl.

Pan gaiff y mudiad (neo-) Pentecostaidd ei archwilio y tu allan ffiniau'r D.U., mae'n amlwg ei fod wedi lledaenu i bob cyfandir. Mae ei apêl wedi cael ei throsglwyddo i bob diwylliant, boed hynny i'r gwledydd ôl-wladychu yn Affrica neu i'r nendyrau hynod o gyfoethog yn Hong Kong. Mae'n fath ar Gristnogaeth sy'n tanlinellu pwysigrwydd y profiad crefyddol ac yn y modd hwnnw mae'n rhagori ar gategorïau synhwyrol, ond fe wna hyn i gyd-fynd â'r 'tro goddrychol' o'r diwylliant ôl-fodernaidd, sydd wedi gwneud profiad personol yn un o arwyddion mawr dilysrwydd.

O safbwynt diwinyddol, mae cred yn yr Ysbryd Glân yn darparu ffordd o feddwl am Dduw'n gweithredu yn y byd. Mae credinwyr sy'n gweddïo ac sy'n rhagweld gwyrthiau yn cael hyd i'r hyn y maen

nhw'n ei chwennych trwy asiantaeth Dduw sy'n ymyrryd yn y byd. A sut y gall Duw ymyrryd, hola'r Pentecostaliaid, oni bai trwy'r Ysbryd Glân? Yn y ffordd hon caiff dirgelwch a gwyrth ei hail-gyflwyno i'r byd hyd yn oed pan yw gwybodaeth wyddonol yn cynyddu. Cafodd y Duw sy'n ymyrryd ei fwrw allan o ddiwylliant y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan dechnoleg, ac fe gafodd y Chwyldro Diwydiannol hyd i ffordd yn ôl trwy ymwneud yr Ysbryd Glân â'r cyflwr ôl-fodernaidd. Yn wir, ar raddfa fyd-eang, fe ddadleuwyd bod Pentecostaliaeth yn gennad moderniaeth '*harbinger of modernity*' (Martin, 2005, t. 141). Mae ei heglwysy'n arwyddo dyfodiad technoleg ac addysg anffurfiol i Orllewin Affrica neu rannau o Dde-ddwyrain Asia ac America Ladin gyda'r canlyniad bod Cristnogaeth Benteostaidd yn cael ei hamgyffred fel crefydd flaengar sy'n helpu i annog democratiaeth, cydraddoliaeth a ffordd newydd o feddwl am y dyfodol. Yn hytrach nag ystyried crefydd fel rhywbeth sydd yn dirywio'n derfynol, fe wêl (neo-) Pentecostaliaeth y byd yn cael ei drawsffurfio gan eglwys fywiog.

Pwyntiau trafod

1. A all crefydd helpu i foderneiddio cymdeithas? Neu a yw bob amser yn gwrthwynebu newid cymdeithasol?
2. I ba raddau y mae'r ddamcaniaeth ar seciwlariaeth yn cael ei herigan dwf mewn crefydd newydd?
3. A all damcaniaethau cymdeithasol ragdybio'r dyfodol ag unrhyw gywirdeb?

Twf Pentecostaliaeth Newydd

Cysylltiadau

<http://www.springharvest.org> (Spring Harvest, gydag eglwysi carismataidd yn bresennol)

<http://newfrontierstogether.org> (grŵp neo-Pentecostaidd sy'n cael ei alw hefyd yn rhwydwaith apostolaidd)

<http://www.new-wine.org> (eglwysi carismataidd yn bresennol)

<http://plato.stanford.edu/entries/weber/> (trafodaeth am Max Weber)

<http://www.jubilee-centre.org/document.php?id=31> (her i seciwlariaeth)

<http://www.elim.org.uk> (Enwad Pentecostaidd yn y D.U.)

<http://pentecostalpioneers.org/George-Jeffreys.html> (gwybodaeth ar George Jeffreys, un o'r efengylwyr Pentecostaidd canol y ganrif a sefydlwr nifer o gynulleidfaoedd)

Cyfeiriadau

Berger, P.L. (1969, 1990). *The sacred canopy: Elements of a sociological theory of religion*. New York: Anchor Books.

Berger, P.L. (1970). *A rumour of angels: Modern society and the rediscovery of the supernatural*. London: Pelican.

Bruce, S. (2002). *God is dead*. Oxford: Blackwell.

Davie, G. (2000). *Religion in modern Europe: A memory mutates*. Oxford: Oxford University Press.

Kay, W.K. (2007). *Apostolic networks in Britain: New ways of being church*. Milton Keynes: Paternoster.

Martin, D. (2005). *On secularization: Towards a revised general theory*. Aldershot: Ashgate.

Walker, A. (1998). *Restoring the kingdom*. Guildford: Eagle.

Weber, M. (2003). *The Protestant ethic and the spirit of capitalism*. New York: Dover. (First published in German in 1904-5).

Mae'r Parchedig Athro William Kay yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Glyndŵr ac yn Athro Astudiaethau Pentecostaidd ym Mhrifysgol Caer. Mae wedi ysgrifennu neu olygu sawl llyfr ar Bentecostiaeth, yn cynnwys Pentecostalism: a very short introduction, Rhydychen: Oxford University Press, 2011; Pentecostalism (SCM Core Text), Llundain: SCM, 2009 a (gydag A. E. Dyer) Pentecostal and charismatic studies: A reader, Llundain: SCM, 2004.